Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Fersiwn 01

Canllaw i Ffoneg ar gyfer Ysgolion yng Nghymru:

Crynodeb i Athrawon a Chymorthyddion Dysgu

CAL:ON CYMRU

Canolfan Addysgu Llythrennedd:
Offer tuag at Newid

Centre for the Advancement of Literacy:
research-led Outcomes and Nation-wide change



Cyfranwyr

Prif awduron:
Dr Cameron Downing a'r Athro Manon Jones.

Arwain ar ddatblygu, dadansoddi tystiolaeth, drafftio ac adolygu'r canllaw, gyda chyfrifoldeb am integreiddio cyfraniadau a gwneud penderfyniadau golygyddol terfynol.

Cyfranwyr: Dr Astrid Bowen, Caroline Korrell, Estelle Crossley, Joanna Archibald, Ceri Owens, Gwenan Lockley, Rhiannon Salisbury, Nia Williams, Dr Bethan Collins, Bryony Kinsey, a Rhian Tomos.

Cyfrannu at ddrafftio ac adolygu'r canllaw, gan gynnwys yr esboniadau, yr enghreifftiau a'r argymhellion ymarferol.

Datblygu ac adolygu: Dr Angella Cooze (Prifysgol Abertawe) a'r Athro Dominic Wyse (UCL).

Cyfrannu at ddatblygu rhaglenni dysgu proffesiynol CAL:ON Cymru gan ddarparu cyngor ar y datblygu, yr arolwg sylweddol a golygu'r canllaw hwn.

Cyngor arbenigol: Nia Lloyd Evans (Dysgu), Rebecca Williams (Dysgu), Dr Sarah Cooper (Prifysgol Bangor).

Darparu arbenigedd mewn ieithyddiaeth a dysgu proffesiynol er mwyn atgyfnerthu'r cywirdeb, yr eglurder a gweithredu'r canllaw yn ymarferol.

Adolygwyr allanol: Dr Danielle Colenbrander (Prifysgol Gatholig Awstralia), yr Athro Jessie Ricketts (Royal Holloway, Prifysgol Llundain), yr Athro Maggie Snowling (Prifysgol Rhydychen), Dr Amy Hulson-Jones (Prifysgol Wrecsam), Mr Gareth Rein (Ysgol Gynradd Gatholig Pedr Sant).

Adolygu fersiynau drafft a darparu adborth critigol ar gywirdeb, cydbwysedd, eglurder a defnyddioldeb ymarferol y canllaw.

Graffeg a chyfathrebu:
Griff (Something/Nothing) a Josie Ryan.

Nid yw cyfrannu drwy ddatblygu ac adolygu, rhoi cyngor arbenigol, neu adolygu yn allanol yn awgrymu cymeradwyaeth o bob agwedd ar y canllaw terfynol.



Mae'r canllaw byr hwn yn grynodeb o'r Canllaw i Ffoneg ar gyfer Ysgolion yng Nghymru. Mae'n darparu arweiniad ymarferol i athrawon a chymorthyddion dysgu ar addysgu ffoneg yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae Cynllun Llythrennedd a Rhifedd Sylfaenol Llywodraeth Cymru (2026) yn datgan y disgwyliad y dylai pob ysgol ddefnyddio ffoneg synthetig systematig (FfSS neu SSP yn y Saesneg) wrth geisio addysgu disgyblion i ddarllen. Mae'r canllaw hwn yn egluro sut mae gweithredu hynny ar y cyd ag addysgu iaith lafar, geirfa, dealltwriaeth yn ogystal â darllen ac ysgrifennu ehangach.

Tabl 1: Termau Allweddol

Mae'r rhestr eirfa yn egluro'r termau allweddol ac yn rhoi'r gair cyfatebol yn y Saesneg. Mewn enghreifftiau, mae < > yn dynodi llythrennau neu grwpiau llythrennau ysgrifenedig ac mae // yn dynodi seiniau llafar. Mae enghreifftiau sain yn defnyddio ffurfiau llythrennau cyfarwydd yn hytrach na symbolau ffonetig.

TERM	SAESNEG	BETH MAE'N EI OLYGU	ENGHREIFFTIAU
Adnabod geiriau	Word recognition	Darllen gair cyfarwydd yn gywir ac yn awtomatig heb ei ddadgodio yn benodol. Mae hyn yn datblygu trwy ddadgodio llwyddiannus a dysgu ffurf ysgrifenedig gair.	-
Amgodio	Encoding	Sillafu geiriau trwy segmentu ffonemau a dewis graffemau.	-
CGFf (cyfatebiaeth graffem-ffonem)	GPC (grapheme-phoneme correspondence)	Y berthynas rhwng graffem a ffonem, sef y cysylltiadau rhwng sain a llythyren/llythrennau	Yn Gymraeg, <f> →/v/. Yn Saesneg, <s> →/s/.
Cyfuno	Blending (synthesising)	Cyfuno ffonemau unigol i greu gair llafar. Wrth ddadgodio, mae dysgwyr yn clustnodi'r ffonemau a gynrychiolir gan graffemau ac yn eu cyfuno i ddarllen y gair.	/d/ /r/ /a/ /m/ /a/ → drama
Dadgodio	Decoding	Darllen geiriau trwy gymhwyso gwybodaeth am CGFfau a chyfuno.	-
Darllen geiriau	Word reading	Darllen gair ysgrifenedig, naill ai trwy ei ddadgodio neu trwy ei adnabod yn awtomatig.	-
Deugraff/trigraff	Digraph / trigraph	Dwy/tair llythyren sy'n cynrychioli un ffonem. Yn y Gymraeg, mae deugraffau fel ll, ch, dd, ff, ng, ph, rh a th yn llythrennau o'r wyddor yn eu rhinwedd eu hunain.	Yn Gymraeg: ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th. Yn Saesneg: sh (deugraff), igh (trigraff).
Ffonem	Phoneme	Yr uned lleiaf o sain mewn iaith.	Y tri sain yn mam: /m/ /a/ /m/
Geiriau eithriad cyffredin Saesneg (gelwir rhain yn eiriau anodd weithiau)	English common exception words (sometimes called tricky or irregular words)	Geiriau amledd uchel na ellir eto eu darllen na'u sillafu'n llawn gan ddefnyddio'r CGFfau a addysgwyd hyd yma, neu sy'n defnyddio sillafiadau llai cyffredin nad yw dysgwyr wedi'u dysgu eto. Cyflwynwch y rhain yn eglur, gan dynnu sylw at y rhannau y gellir eu dadgodio.	the, said, one
Geiriau cyfarwydd	Sight words	Geiriau sydd wedi'u dysgu ac y gellir eu hadfer a'u hadalw yn gyflym o'r cof.	-
Graffem	Grapheme	Llythyren neu grŵp o lythrennau sy'n cynrychioli sain.	Yn y Gymraeg: l, ll, ch. Yn y Saesneg: s, sh, igh.
Adnabod llythrennau	Letter knowledge	Y gallu i adnabod llythrennau, gwybod eu henwau, a deall y sain/ seiniau y maent yn eu cynrychioli mewn print.	-
Mapio orthograffig	Orthographic mapping	Y broses y mae darllenwyr yn storio geiriau ysgrifenedig yn y cof trwy gysylltu eu sillafiadau gyda'u hynganiadau a'u hystyron, fel y gellir eu hadnabod yn gyflym ar yr olwg gyntaf yn ddiweddarach (h.y. adnabod geiriau).	-
Morffoleg	Morphology	Sut mae geiriau wedi cael eu hadeiladu o rannau ystyrlon e.e. gwreiddiau, rhagddodiaid ac ôlddodiaid. Daw rhagddodiad cyn gwreiddyn (*an*hapus) a daw ôlddodiad ar ei ôl (hapus*rwydd*).	-
Segmentu	Segmenting	Rhannu gair yn ffonemau i'w sillafu.	piano → /p/ /i/ /a/ /n/ /o/
Ymwybyddiaeth ffonemig	Phonemic awareness	Math penodol o ymwybyddiaeth ffonolegol: y gallu i adnabod a thrin ffonemau.	Clywed bod sat yn cynnwys /s/ /a/ /t/
Ymwybyddiaeth ffonolegol	Phonological awareness	Ymwybyddiaeth o strwythur sain iaith lafar, gan gynnwys geiriau, sillafu, cyflythrennu ac odlau.	Adnabod a thrin seiniau mewn geiriau llafar.



Pam bod ffoneg yn bwysig ar gyfer darllen a sillafu

Mae addysgu ffoneg yn helpu dysgwyr i ddeall cod alffabetig unrhyw iaith a'i ddefnyddio'n effeithiol. Mae FfSS yn:

- Galluogi dysgwyr i ddadgodio geiriau anghyfarwydd drwy glustnodi'r ffonemau a gynrychiolir gan graffemau hysbys a'u cyfuno.
- Helpu dysgwyr i sillafu yn gywir trwy segmentu geiriau llafar yn ffonemau a dewis y graffemau priodol.
- Helpu dysgwyr adnabod geiriau'n awtomatig fel y gallant ganolbwyntio fwyfwy ar yr ystyr.
- Gosod sylfeini cadarn ar gyfer darllen, sillafu, rhuglder wrth ysgrifennu a mynediad i'r cwricwlwm ehangach, gan gynnwys i ddysgwyr sy'n wynebu anawsterau o ran llythrennedd.

Dylid addysgu ffoneg ochr yn ochr â'r wybodaeth a'r sgiliau eraill sydd eu hangen ar ddysgwyr i ddeall yr hyn y maent yn ei ddarllen.

Mae dealltwriaeth wrth ddarllen yn dibynnu ar ddarllen geiriau a deall iaith. Addysgwch iaith lafar, geirfa a dealltwriaeth o'r dechrau, ochr yn ochr gyda ffoneg.

Mae ysgrifennu hefyd yn defnyddio nifer fawr o sgiliau gwahanol. Wrth i sillafu a llawysgrifen neu deipio ddod yn fwy awtomatig, gall dysgwyr roi mwy o sylw i gynllunio a chyfansoddi.

Beth yw ystyr ffoneg synthetig systematig (FfSS) yng Nghymru

Yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru, mae'r canllaw hwn yn canolbwyntio ar rôl allweddol ffoneg synthetig systematig (FfSS) wrth addysgu darllen. Daw'r term 'synthetig' o'r syniad o syntheseiddio, hynny yw, rhoi seiniau at ei gilydd. Mae FfSS yn golygu:

- Addysgu'r CGFfau yn benodol o'r dechrau, gan ddilyn trefn fanwl, cam wrth gam, yn y ddwy iaith.
- Addysgu dysgwyr i gyfuno ffonemau a gynrychiolir gan y graffemau fel y prif ffordd o ddarllen geiriau anghyfarwydd, a segmentu geiriau llafar yn ffonemau ar gyfer sillafu.
- Rhoi cyfleoedd dyddiol i ddysgwyr ddefnyddio'r hyn a addysgwyd iddynt mewn geiriau, brawddegau a thestun cysylltiedig, trwy ddarllen a sillafu.
- Gwirio yr hyn y gall dysgwyr adalw a chymhwyso, yna defnyddio'r wybodaeth honno i benderfynu beth i'w addysgu, ailymweld neu ymarfer nesaf.

Peidiwch ag annog dysgwyr i ddyfalu geiriau anghyfarwydd o luniau, cyd-destun neu'r llythyren gyntaf.

Mae FfSS yn rhan o addysgu llythrennedd ehangach, gan gynnwys iaith lafar, geirfa, dealltwriaeth, llawysgrifen, confensiynau sillafu a rhannau geiriau ystyrlon (morffoleg).

Nodweddion addysgu ffoneg synthetig systematig effeithiol

Gall ysgolion ddefnyddio gwahanol raglenni[1] ac adnoddau FfSS. Mae gan addysgu effeithiol nifer o nodweddion cyffredin:

- **Cydlyniad yn y Gymraeg a'r Saesneg:** Cynlluniwch drefn addysgu glir ar gyfer y ddwy iaith, gan ddefnyddio dulliau a therminoleg cyson. Ewch ati i amlygu'r hyn sy'n debyg a'r hyn sy'n wahanol rhwng y ddwy iaith. Cysylltwch ymarfer darllen a sillafu annibynnol gyda'r cynnwys a addysgwyd yn yr iaith honno, gan gynnwys unrhyw eiriau eithriad cyffredin yn y Saesneg a gafodd eu haddysgu yn benodol.
- **Addysgu systematig:** Dilynwch gynllun a threfn yr ysgol gan addysgu'r cod alffabetig mewn camau bach, gyda chyfleoedd rheolaidd i ymarfer ac adolygu.
- **Adeiladu ar ddysgu blaenorol:** Ewch yn ôl at CGFfau a addysgwyd eisoes gan symud o CGFfau mwy syml i CGFfau a strwythur geiriau mwy cymhleth. Datblygwch ymwybyddiaeth ffonemig ochr yn ochr ag addysgu CGFfau lle mae dysgwyr yn clywed, cyfuno, a segmentu ffonemau tra'n eu cysylltu gyda phrint. Nid oes angen iddynt feistroli gweithgareddau sain a gwrando cyn cychwyn ffoneg.
- **Cyfarwyddyd penodol:** Eglurwch y nod, modelu'r broses ac yna ymarfer gyda'r dysgwyr gan roi adborth, cyn rhoi cyfle i ddysgwyr gymhwyso'r sgiliau yn annibynnol. Sicrhewch bod pob dysgwr yn cyfranogi o'r addysgu. Ewch ati i fodelu ffonemau yn glir, gan osgoi unrhyw lafariaid ychwanegol e.e. "uh" ar ôl cytsain lle bo hynny'n bosibl, tra'n parchu gwahaniaethau o ran acen a thafodiaith.
- **Cofio ac adolygu:** Gofynnwch i ddysgwyr adalw cyfatebiaethau sydd eisoes wedi'u haddysgu, er enghraifft, trwy ynganu sain ar gyfer graffem a ddangosir neu ysgrifennu graffem a addysgwyd ar gyfer gwaith llafar. Rhowch adborth yn syth. Ewch yn ôl at y cynnwys mewn gwersi diweddarach a defnyddiwch ymatebion y dysgwyr i benderfynu a oes angen mwy o fodelu neu ymarfer.
- **Cymhwyso dysgu blaenorol:** Ewch ati i gynnwys cyfatebiaethau a gafodd eu haddysgu eisoes ochr yn ochr gyda rhai newydd mewn ymarfer darllen a sillafu. Cofiwch addasu nifer a lefel anhawster yr eitemau fel bod dysgwyr yn gallu ymateb yn gywir gyda'r gefnogaeth briodol.
- **Geiriau eithriad cyffredin:** Yn y Saesneg, addysgwch y gyfatebiaeth anghyfarwydd o fewn y gair, ac ar yr un pryd, addysgwch y rhannau mae'r dysgwyr eisoes yn eu gwybod. Er enghraifft addysgwch <ai> sy'n cynrychioli /e/ yn y gair *said* tra'n tynnu sylw at <s> a <d>. Dywedwch y gair, eglurwch yr ystyr, gan fapio'r ffonemau yn graffemau ac yna ymarfer eu darllen a'u sillafu. Ewch yn ôl at hyn mewn gwersi diweddarach. Efallai y bydd geiriau Cymraeg hefyd angen sylw penodol i gyfatebiaeth neu strwythur gair llai cyfarwydd.
- **Cywiro gwallau**: Anogwch y dysgwr i edrych ar y graffemau a defnyddio'r drefn a addysgwyd. Os oes angen, gallwch fodelu'r ymateb cywir, ac yna gofyn i'r dysgwr ddarllen neu sillafu'r gair eto. Sicrhewch bod eich adborth yn fyr ac yn adeiladol ac yna ewch dros yr eitem yn ddiweddarach.

[1]*Gelwir rhain yn becynnau ar adegau.*

Addysgu ffoneg yn y Gymraeg ac yn y Saesneg

Gall dysgwyr ddefnyddio eu hymwybyddiaeth ffonemig, eu cyfuno a'u gwybodaeth o sut mae geiriau ysgrifenedig yn cynrychioli iaith lafar wrth ddysgu darllen mewn iaith arall. Mae trosglwyddo yn ddefnyddiol ond nid yw'n awtomatig ac felly mae'n bwysig gwirio'r hyn y gall dysgwyr ei wneud yn y ddwy iaith. Yn wahanol i'r Saesneg, mae modd rhagweld sut mae sillafiadau Cymraeg yn cynrychioli seiniau gan amlaf er y gall ynganiad Cymraeg amrywio o ran lleoliad, gair a thafodiaith. Mae nodweddion tebyg a gwahanol yn y ddau god.

- **Cyfatebiaethau tebyg neu rai sy'n cael eu rhannu er enghraifft <b>, <d>, <m> a <t>:** gwiriwch a yw dysgwyr yn gallu defnyddio'r rhain yn yr iaith newydd gan addasu'r addysgu a'r ymarfer yn unol â hynny.
- **Yr un llythrennau gyda seiniau gwahanol, fel <f> yn y Gymraeg *fel* ac yn y Saesneg *fun* neu <ch> yn y Gymraeg *bach* ac yn y Saesneg *chip*:** eglurwch pa iaith sy'n cael ei darllen a modelwch y sain perthnasol. Cynlluniwch y ffordd y byddwch yn cyflwyno yn ofalus a cheisiwch osgoi cyflwyno unrhyw eitemau sy'n gwrthdaro gan y gall hyn achosi dryswch. Unwaith y bydd pob patrwm wedi'i addysgu, defnyddiwch "Yn y Gymraeg...Yn y Saesneg..." er mwyn cymharu yn glir a gwirio bod dysgwyr yn gallu defnyddio'r ddau.
- **Patrymau sy'n benodol i un cod, fel y deugraff hollt (<i-e> yn *bike*) yn y Saesneg neu'r <rh> yn y Gymraeg:** addysgwch y rhain yn benodol fel dysgu newydd. Bydd rhai seiniau eisoes yn gyfarwydd; efallai y bydd rhai eraill angen eu modelu a'u hymarfer. Mae **Atodiad A** y canllaw llawn yn cymharu'r codau. Mae'r awgrymiadau trefn hyn yn defnyddio gwybodaeth am yr ieithoedd a barn broffesiynol nid yw ymchwil hyd yn hyn wedi penderfynu ar un drefn benodol.

Ffoneg y Saesneg mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg: Dechreuwch addysgu ffoneg y Saesneg yn benodol yn gynnar ym Mlwyddyn 3, tra'n parhau i addysgu llythrennedd y Gymraeg. Dyma'r drefn ymarferol a argymhellir, nid yr oedran gorau seiliedig ar ymchwil. Gwiriwch wybodaeth CGFfau a darllen Saesneg y dysgwyr, adeiladwch ar y sgiliau sydd eisoes yn gadarn yn y Gymraeg ac addysgwch y cyfatebiaethau penodol i'r Saesneg sydd eu hangen arnynt. Defnyddiwch sesiynau byr, rheolaidd, gan ddefnyddio deunyddiau addas i'r oedran, law yn llaw gydag iaith lafar, geirfa a dealltwriaeth yn y Saesneg.

Ffoneg y Gymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg: Addysgwch y CGFfau Cymraeg ochr yn ochr ag addysgu'r Gymraeg. Efallai na fydd dysgwyr sy'n gallu dadgodio gair Cymraeg yn ei ddeall hyd yn hyn. Addysgwch yr eirfa sydd ei hangen arnynt. Cofiwch gynnwys gwrando a siarad yn y Gymraeg, gan ddewis testunau ymarfer sydd ag iaith hylaw gan wirio eu dealltwriaeth yn ogystal â chywirdeb eu darllen ar goedd. Cofiwch fodelu seiniau sy'n anghyfarwydd i'r dysgwyr.



Cynnydd ar draws cyfnodau'r ysgol

Mae'r cyfnodau ysgol eang hyn yn enghreifftiau cynllunio. Nid ydynt yn gamau cynnydd Cwricwlwm i Gymru nac yn fandiau cyrhaeddiad penodol. Defnyddiwch yr asesu i ddewis pa gynnwys sydd ei angen ar bob dysgwr. Dylid cychwyn FfSS yn y Meithrin. Peidiwch ag aros tan flwyddyn 1 cyn ei gyflwyno neu nes bydd gweithgareddau ymwybyddiaeth gwrando wedi'u meistroli.



- **Meithrin (3–4 oed fel arfer):** datblygwch iaith lafar trwy siarad, straeon, caneuon a chwarae. Rhowch ychydig o sylw i seiniau lleferydd a gwnewch gysylltiadau cynnar rhwng seiniau a llythrennau.
- **Derbyn a chynradd cynnar (4–7 oed fel arfer):** addysgwch FfSS mewn dilyniant trefnus, cronnol. Ewch ati i gyfuno a segmentu CGFfau o'r dechrau, gan gychwyn gyda geiriau syml fel *at* a *sat* yn y Saesneg a *mam* yn y Gymraeg. Addysgwch enwau llythrennau ochr yn ochr â sain y llythyren gan ymarfer sillafu a ffurfio llythrennau. Gellir wedyn fynd ymlaen i grwpiau llythrennau, cytseiniaid cyfagos a chyfatebiaethau gwahanol wrth i wybodaeth y dysgwyr dyfu. Darllenwch destun cysylltiedig addas gan ddatblygu iaith, dealltwriaeth a darllen ehangach ochr yn ochr gyda'r addysgu hwn.
- **Cynradd hŷn (7–11 oed fel arfer):** addysgwch unrhyw wybodaeth cod sy'n weddill gan ymestyn rhuglder, sillafu, strwythur geiriau a geirfa ar draws y cwricwlwm. Gellir cyflwyno cyfatebiaethau penodol i'r Saesneg pan fydd llythrennedd Saesneg yn cychwyn mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg. Pan fydd dadgodio yn gadarn, gellir lleihau'r addysgu ffoneg penodol a pharhau i ddarparu cefnogaeth lle bo'r angen.
- **Blynyddoedd cynnar yr uwchradd (11-14 oed fel arfer):** gwiriwch ddarllen geiriau, rhuglder a dealltwriaeth gan dargedu cefnogaeth i ddysgwyr a glustnodwyd. Addysgwch eiriau hirach, rhannau geiriau ystyrlon a geirfa bynciol heb ailadrodd cynnwys ffoneg y mae dysgwyr eisoes yn ei wybod.
- **Blynyddoedd hŷn yr uwchradd (14-16 oed fel arfer):** datblygwch y darllen a'r ysgrifennu sydd ei angen ym mhob pwnc, gan gynnwys geirfa academaidd, sillafu, strwythur geiriau a gwreiddiau geiriau os bydd hynny yn ddefnyddiol. Ewch ati i barhau i addysgu cod a thargedu disgyblion os bydd asesu yn dangos bod angen hynny.



Defnyddio gwahanol fathau o destun

Mae llyfrau dadgodio yn llyfrau neu destunau sydd wedi'u cynllunio i roi cyfle i ddysgwyr ymarfer y CGFfau y maent wedi cael eu haddysgu eisoes. Mae testunau eraill yn cynnwys perthnasau ffonem i graffem nad ydynt wedi cael eu haddysgu hyd yn hyn. Defnyddiwch destunau dadgodio ar gyfer ymarfer darllen annibynnol cynnar yn yr iaith yr addysgir trwyddi.

Ochr yn ochr â hynny, ceisiwch ddarparu sesiynau darllen ar goedd yn rheolaidd, lle mae oedolyn yn darllen a dysgwyr yn gwrando a thrafod, a sesiynau rhannu darllen, lle mae oedolion a dysgwyr yn trin yr un testun gan fodelu a'r oedolyn yn cefnogi'r dysgwr. Gellir cynnwys straeon a thestunau gwybodaeth er mwyn datblygu iaith, gwybodaeth, dealltwriaeth a mwynhâd. Dylai dysgwyr sydd angen mwy o ymarfer dadgodio barhau i gael mynediad i'r darllen ehangach hwn. Rhowch gyfleoedd i fyfyrwyr ddarllen yn ehangach wrth iddynt ddarllen a deall amrywiaeth o destunau yn llwyddiannus. Defnyddiwch asesu yn hytrach nag oedran penodol neu ddyddiad penodol er mwyn lleihau dibyniaeth ar lyfrau sydd wedi'u paru yn arbennig.

Morffoleg

Addysgwch rannau geiriau ystyrlon ochr yn ochr â ffoneg, gan gysylltu ynganiad, sillafu ac ystyr. Er enghraifft:

- Cyflwynwch terfyniadau gramadegol cyffredin pan fydd hynny yn ddefnyddiol, fel *–s, -ing* ac *–ed* yn y Saesneg ac *–au* yn y Gymraeg.
- Addysgwch ragddodiaid ac ôlddodiaid cyffredin, gan fynd yn ôl atynt wrth edrych ar deuluoedd geiriau fel hapus, hapusrwydd ac anhapus.
- Ewch ymlaen i rannau geiriau llai cyffredin, gwreiddiau Groeg a Lladin a tharddiad geiriau wrth iddynt ymddangos yng ngeirfa'r cwricwlwm.

Cynlluniwch ddilyniant sy'n seiliedig ar wybodaeth y dysgwyr. Mae addysgu rhannau geiriau yn cydfynd gyda dadgodio ac yn helpu egluro sillafu ac ystyr, er nad yw'n disodli'r addysgu CGFfau y mae pob dysgwr yn parhau i fod ei angen.

Asesu

Gwiriwch ddarllen geiriau, sillafu a dealltwriaeth. Mae gwiriadau cryno o'r CGFfau a addysgwyd, y cyfuno a'r sillafu, yn ogystal ag arsylwi darllen testun yn eich helpu i benderfynu:

- beth sydd angen ei ailaddysgu,
- beth sydd angen ymarfer pellach,
- pwy sydd angen cefnogaeth ychwanegol a beth ddylai'r gefnogaeth ei dargedu.

Mae angen asesu cywirdeb a rhuglder darllen ochr yn ochr â sgiliau dealltwriaeth iaith (e.e. geirfa) a dealltwriaeth o destun (darllen a deall). Nid yw darllen ar goedd yn gywir yn unig yn arwydd digonol o ddealltwriaeth. Defnyddiwch y canlyniadau gyda'i gilydd, gan ystyried yr addysgu a'r profiad o iaith; ni ddylai un sgôr darllen benderfynu ar y gefnogaeth a ddarperir.

Cefnogi pob dysgwr

Mae FfSS yn rhoi sylfaen ar gyfer pob dysgwr sydd angen cyfarwyddyd cod, ond mae anghenion dysgwyr a'u hymateb i'r addysgu yn gallu amrywio. Ceisiwch gynnal amcanion dysgu uchelgeisiol, gan addasu'r cyflymder, pennu faint o ymarfer a ddarperir, y grwpio, y deunyddiau, y cymorth iaith ac ysgogiadau addysgu. Parhewch i addysgu mewn modd penodol, systematig a chronnol, gan ddarparu camau llai, a mwy o ymarfer gydag arweiniad lle bo'r angen. Ewch ati i adolygu cynnydd, addasu'r ddarpariaeth nad yw'n gweithio a cheisio barn arbenigol os bydd hynny yn briodol. Mae angen lleihau'r ysgogiadau addysgu wrth i'r dysgwr ddod yn fwy annibynnol, ond gellir parhau gyda'r gefnogaeth sydd ei hangen ar y dysgwr.

Ysgolion uwchradd

Defnyddiwch wybodaeth drosglwyddo ac asesiadau cryno i glustnodi dysgwyr sydd angen mwy o gefnogaeth. Gall mesur safonol ar gyfer darllen geiriau a geiriau ffug helpu clustnodi anawsterau dadgodio posibl. (Geiriau ffug yw geiriau sydd wedi'u creu er mwyn gwirio dadgodio llinynnau llythrennau anghyfarwydd). Fe fydd angen dehongli hyn ochr yn ochr â sillafu, rhuglder, dealltwriaeth a hanes addysgu. Mae'r SgrînDdarllen ar gael am ddim trwy CAL:ON Cymru. Cofiwch ddarparu deunyddiau addysgu penodol ar gyfer bylchau a glustnodwyd, addas i oedran, gan gynnwys CGFfau Saesneg yn benodol nad ydynt wedi cael eu haddysgu. Gwiriwch effaith hyn a pheidiwch ag ailadrodd ffoneg cadarn os mai'r prif angen yw iaith neu ddealltwriaeth.

Dewis adnoddau i gefnogi addysgu ffoneg

Gall ysgolion ddefnyddio rhaglen FfSS fasnachol, deunyddiau a ddatblygwyd yn lleol, neu gyfuniad o'r ddau. Dylai'r ddarpariaeth ddiwallu gofynion FfSS uchod, gan gynnig dilyniant gydlynol a threfn gyson. Mae Adran 4 y canllaw llawn ac **Atodiad B** yn egluro sut mae gwerthuso hyn. Mae'r rhestr wirio hon yn ymwneud â ffoneg a sut mae ei chymhwyso i ddarllen a sillafu. Mae ysgolion hefyd angen cynllunio addysgu llythrennedd ehangach.

Rhai ystyriaethau pwysig i ddarpariaeth ysgolion

- A yw'r adnoddau yn addysgu CGFfau yn benodol mewn trefn gronnol, gan gyfuno i ddarllen a segmentu i sillafu, ac yn cynnwys cymhwyso dyddiol i eiriau a thestunau?
- A yw'r adnoddau yn cynllunio cynnydd ac adolygu, gan roi arweiniad clir ar addasu'r cyflymder a'r gefnogaeth pan fydd asesu yn dangos bod angen hynny?
- A yw ein darpariaeth yn amlygu gwahaniaethau a thebygrwydd perthnasol rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, gyda dilyniant addysgu clir ar gyfer pob iaith?
- A yw'r testunau ymarfer annibynnol yn cyfateb i'r cynnwys a addysgwyd, ac yn cynnwys mynediad i destunau mwy cyfoethog ac amrywiol?
- A yw gwirio'r dysgu yn arwain at benderfyniadau clir ynghylch ailaddysgu, ymarfer a chefnogaeth ychwanegol?
- A yw honiadau ardrawiad ar sail cymariaethau credadwy gyda darpariaethau eraill ac asesiadau annibynnol addas? Pwy gafodd ei astudio, ym mha iaith, ac o dan ba amodau? Nid yw gwella cyn ac ar ôl addysgu yn unig yn dangos mai'r rhaglen achosodd y gwelliant.
- A oes gennym set systematig o ddeunyddiau addas ar gyfer y ddwy iaith, sydd yn cadw at yr un safonau a bod cydweithio a chysondeb ar draws y Gymraeg a'r Saesneg?
- A fydd staff yn gallu cyflwyno nodweddion craidd FfSS yn gywir, a chael hyfforddiant, cyflwyniad cychwynnol a chefnogaeth, tra'n addasu cefnogaeth i anghenion y dysgwyr a gafodd eu hasesu?

Ble i gael rhagor o wybodaeth

Mae'r canllaw llawn yn darparu'r dystiolaeth, esboniadau llawnach ac enghreifftiau ychwanegol:

- Rôl ffoneg, diffiniad o FfSS a'r dystiolaeth: Adrannau 1 a 2.
- Ymwybyddiaeth ffonemig, cynnydd, addysgu dwyieithog, testunau a morffoleg: Adran 3.
- Addysgu FfSS effeithiol a dewis a gwerthuso rhaglenni: Adran 4.
- Asesu a chefnogi dysgwyr, gan gynnwys yn yr ysgol uwchradd: Adran 5.
- Sut mae codau'r Gymraeg a'r Saesneg yn cymharu: **Atodiad A.**
- Rhestr wirio rhaglen ffoneg: **Atodiad B.**

Mae'r termau allweddol yn rhestr eirfa'r crynodeb hwn: ceir ffynonellau a darllen pellach yn y canllaw llawn.

Mae CAL:ON Cymru yn darparu dysgu proffesiynol a'r SgrînDdarllen.

Gwefan CAL:ON Cymru

CAL:ON Cymru Website

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Dysgu
Grymuso Addysgwyr | Empowering Educators

adnodd
yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru
supporting the Curriculum for Wales